

Ymateb Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i Ymgynghoriad Comisiwn y Gyfraith ar Gyfraith Gynllunio yng Nghymru (Papur Cwmpasu)

1. Rwyf yn croesawu'r cyfle i ymateb i ymgynghoriad Comisiwn y Gyfraith ar ei bapur cwmpasu ar Gyfraith Gynllunio yng Nghymru. Fel Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru rwyf yn ymchwilio i gwynion a wneir gan y cyhoedd eu bod wedi dioddef caledi neu anghyfiawnder trwy gamweinyddu neu fethiant gwasanaeth ar ran corff yn fy awdurdodaeth. Mae cyrff yn fy awdurdodaeth sy'n darparu gwasanaethau mewn perthynas â chynllunio'n cynnwys awdurdodau lleol, Arolygiaeth Gynllunio Cymru a thribiwnlysoedd perthnasol. Rwyf yn cael nifer sylweddol o gwynion am gynllunio; dim ond dau wasanaeth arall sy'n denu mwy o gwynion, sef iechyd a thai. Rwyf felly'n ymateb i'r ymgynghoriad yn y cyd-destun hwn.
2. Mae'r pwyntiau penodol yr hoffwn eu gwneud ar y ddogfen ymgynghori fel a ganlyn:

- **Pennod 3 – Yr Achos dros Symleiddio – Cwestiwn 3-1**

Rwyf yn croesawu'r cynnig i gydgrynhoi a symleiddio cyfraith gynllunio yng Nghymru, gyda golwg ar greu Cod Cynllunio newydd. Pan fyddwn yn ymchwilio i gŵyn mae'n golygu bod yn rhaid i ni ganfod pa ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i'r mater dan sylw. Mae fy staff yn aml iawn yn teimlo ei bod yn anodd lleoli cyfraith gynllunio Cymru ac rydym yn teimlo y byddai codeiddio'n help mawr.

Fodd bynnag, mae'r un mor bwysig yn ystod ein hymchwiliadau ein bod yn gallu canfod beth oedd y gyfraith ar unrhyw adeg benodol (hynny yw, beth oedd y gyfraith pan ddigwyddodd y broblem rydym yn ymchwilio iddi). Felly, bydd yn bwysig cael archif lle gellir dod yn hyd i 'rifynnau' blaenorol o'r Cod yn rhwydd.

- **Pennod 4 – Cwmpas Rhan Gyntaf Cod Cynllunio – Camau Unioni**

Paragraff 4.41 – Hoffwn ddweud nad oes cyfyngiad absoliwt ar allu Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i dderbyn cwyn pan fydd cam unioni ar gael trwy lys barn. Gall yr Ombwdsmon ddefnyddio ei ddisgresiwn i dderbyn ac i ymchwilio i gŵyn o'r fath os daw i'r casgliad bod amgylchiadau'r achos yn haeddu hyn.

Paragraff 4.44 a 4.45 – Mae'r paragraffau hyn yn ddryslyd ac mae angen egluro rôl a phwerau'r Ombwdsmon o ran camau unioni. Er enghraifft, mae'n anghywir i awgrymu 'there is no legislative foundation in planning for application to the Ombudsman ...'. Swyddogaeth awdurdodau lleol yw cynllunio ac, felly, mae'n dod o fewn awdurdodaeth Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru o dan Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005. Gallai fod yn fuddiol hefyd i esbonio na all yr Ombwdsmon dderbyn cwyn os oes hawl i apelio gerbron tribiwnlys; ond eto gall yr Ombwdsmon ddefnyddio'i ddisgresiwn i dderbyn ac i ymchwilio i gŵyn os yw'r amgylchiadau'n gofyn am hynny.

- **Pennod 5 – Diwygio Technegol – Cwestiwn 5-1**

Rwyf yn cytuno y byddai'r diwygio technegol fel y'i trafodwyd yn y Bennod hon yn ffordd synhwyrol ymlaen.

- **Pennod 7 – Codeiddio Cyfraith Achosion**

Er fy mod yn credu y byddai'n fuddiol pe byddai codeiddio cyfraith achosion yn rhan o'r ymarferiad codeiddio ehangach, gyda phopeth mewn un lle, mi hoffwn gynnig gair o rybudd. Os cymerir y cam hwn, rwyf yn credu ei bod yn bwysig bod y Cod yn cael ei ddiweddarau'n rheolaidd. Mae hyn yn ei dro'n golygu y bydd angen adnoddau digonol i sicrhau bod hyn yn digwydd. Bydd angen bod yn ofalus hefyd i sicrhau bod cytundeb cyffredinol ar beth bynnag sy'n cael ei gynnwys yn y Cod i adlewyrchu'r safbwynt diffiniol. Felly, lle bydd unrhyw amwysedd ynglŷn â chyfraith achosion a / neu os oes posibilrwydd y gallai'r mater esblygu ymhellach, yna ni ddylai gael ei gynnwys.

Rwyf yn gobeithio bod yr ymateb hwn o gymorth wrth gwmpasu eich prosiect.

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
Hydref 2016
